# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 16 Hydref 2014** |
| Amser: | **10.18 - 12.48** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2533**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Vaughan Gething AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd**<br>**Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru**<br>**Albert Heaney, Llywodraeth Cymru**<br>**Martin Sollis, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Amy Clifton (Ymchwilydd)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)** |

**Trawsgrifiad**
[Trawsgrifiad o'r cyfarfod.]

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor

1.1 Bu'r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith, gan gytuno y byddent yn ei thrafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- cofnodion y cyfarfod blaenorol;
- gohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch portffolios y Gweinidogion; a
- gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynllun recriwtio Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eglurhad ynghylch faint o bobl sydd wedi gadael y gwasanaeth ambiwlans yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun recriwtio a'r gwahaniaeth net yn niferoedd y staff.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.
4.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- eglurhad ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn benodol sut mae'r £529 miliwn a ddyfynnwyd ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn cymharu â chyllid blynyddoedd blaenorol; a
- dadansoddiad o ansawdd a lefel setliadau yn ystod y flwyddyn a wnaed yn erbyn y risg Cronfa Risg Cymru mewn blynyddoedd diweddar.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a chytunodd i ysgrifennu atynt i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion a gododd yn ystod y sesiwn.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei waith yn craffu ar y gyllideb ddrafft.